Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

6ed Ionawr 2022

Annwy Riant/Ofalydd,

Braf yw eich cyfarch am y tro cyntaf fel Pennaeth Gweithredol yr ysgol. Yn gyntaf, hoffwn dalu teyrnged i'm rhagflaenydd, Dafydd Jenkins, a arweiniodd yr ysgol mewn modd mor llwyddiannus ers Ionawr 2017. Dan ei arweinyddiaeth, parhaodd yr ysgol i gyrraedd y safonau uchaf yn academaidd gan hawlio'i lle unwaith eto ymysg ysgolion uwchradd gorau Cymru. Yn ogystal, fe welwyd datblygiadau arwyddocaiol i safle'r ysgol gydag agor meysydd chwarae newydd, ffreutur a chartre newydd i'r Adran Gymraeg. Mae ein dyled fel cymuned addysgol yn fawr iddo. Braf yw dweud hefyd nad yw yn ymadael yn llwyr â theulu'r ysgol gan y bydd yn parhau i addysgu Mathemateg i Fl 7-11 tan yr Haf.

Ar ddechrau'r tymor hefyd, mae'n dda croesawu aelodau newydd o'r staff atom. Mae Bethan Harkin yn ymuno gyda'r ysgol fel Arweinydd Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Mae Mrs Harkin yn gyn-ddisgybl ac wedi gweithio am flynyddoedd fel arweinydd canol llwyddiannus iawn mewn ysgol uwchradd yn Sir Benfro. Bydd hi'n gaffaeliad mawr i'r ysgol a dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei gwaith. Yn ogystal, mae cyn-ddisgybl arall, Nia Poulton yn ymuno gyda'r Adran Wyddoniaeth fel Technegydd. Dymunwn y gorau i hithau hefyd yn ei swydd.

TREFNIADAU DYSGU AC ADDYSGU

Fel rydych eisoes yn ymwybodol rwy'n siwr o'r hyn sydd yn y cyfryngau, y mae'r sefyllfa sy'n wynebu byd addysg ym mis Ionawr yn ymddangos yn heriol o ganlyniad yn bennaf i effaith yr amrywiolyn *Covid*, *Omicron*. Golyga hyn y tebygolrwydd o nifer uchel o staff a dysgwyr yn hunain-ynysu, a fyddai yn cael effaith arwyddocaol ar allu ysgolion i weithredu yn y modd arferol. Ar hyn o bryd, rwy'n falch i ddweud bod y sefyllfa yn yr ysgol yn un weddol sefydlog ac felly **gallwn gadarnhau, y bydd disgyblion Bl 11 a myfyrwyr Bl 12-13 YN UNIG yn medru dychwelyd i addysg ar safle'r ysgol ar Ddydd Gwener, 7 Ionawr a HOLL DDISGYBLION Bl 7-13 yn dychwelyd i addysg ar y safle ar Ddydd Llun 10 Ionawr.** Fodd bynnag, rhaid i mi bwysleisio y gallai'r sefyllfa newid yn gyflym ond hoffwn eich sicrhau y byddaf yn eich hysbysu cyn gynted a phosib os bydd hynny yn digwydd, gan roi cymaint o rybudd i chi ag y medraf.

Pennaeth Gweithredol: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

DIOGELU DYSGWYR A SAFLE'R YSGOL

Yr hyn sy'n bwysig yn y cyd-destun presennol yw bod staff a dysgwyr yr ysgol yn gwneud eu gorau glas i ddiogelu eu hunain. Felly:

- **Ni ddylai neb ddod ar gyfyl safle'r ysgol os ydynt yn dioddef gan brif symptomau *Covid* (peswch newydd parhaus, tymheredd uchel, colli blas neu arogl) Dylent hunan-ynysu ac yna trefnu prawf *PCR.***

- **Fodd bynnag, os ydynt yn teimlo'n iach, dylai pob dysgwr, fel y gwna'r staff, brofi eu hunan cyn dod i'r ysgol, deirgwaith yr wythnos ar Ddydd Llun, Mercher a Gwener drwy fodd Prawf Llif Ochrol (*LFT*). Mae pecynnau prawf ar gael yn yr ysgol ar gyfer dysgwyr a byddant yn cael eu dosbarthu yn wythnosol i ddysgwyr sy'n dymuno eu cael. Os yw y canlyniad yn bositif, dylai'r dysgwr hunan-ynysu.**

- **Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn gwisgo mygydau ar fysys yr ysgol, a hefyd yn ystod gwersi a thu fewn i adeiladau'r ysgol, gan barchu y systemau un-ffordd.**

- **Bydd staff yn cyfarwyddo'r dysgwyr i ddiheintio dwylo a byrddau ar ddiwedd gwersi, ac mae system dyddiol yn ei lle o lanhau pwyntiau cyffwrdd arbennig megis dolenni drysau.**

- **Dylai dysgwyr, fel staff, wneud eu gorau glas i gynnal pellter corfforol priodol o'i gilydd**

- **Yn ogystal, mae yr ysgol wedi cymryd camau pellach ers dechrau'r tymor hwn i leihau cyswllt dysgwyr â'i gilydd er mwyn lleihau risg trosglwyddiad. Gwnaed hynny drwy benodi ardaloedd chwarae penodol i Grwpiau Blwyddyn yn ystod amseroedd egwyl a chinio, a hefyd penodi amseroedd penodol i Grwpiau Blwyddyn ymgasglu i fwyta'u cinio.Yn ychwanegol, bydd dysgwyr yn cael eu rhyddhau yn ofalus ar ddiwedd y dydd fesul Grwpiau Blwyddyn i gyrraedd y bysys.**

Pennaeth Gweithredol: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

DIM DARPARIAETH BYRBRYD ADEG EGWYL

Yn anffodus, fel rhan o'n strategaeth i leihau cyswllt rhwng Grwpiau Blwyddyn, ni fydd modd i ffreutur yr ysgol ddarparu byrbryd amser egwyl i ddysgwyr **am y tro**. Mae hwn yn bennaf oherwydd mae cyfyngder amser egwyl yn ei gwneud hi'n amhosib i sicrhau system lle mae modd gwahanu Grwpiau Blwyddyn o'i gilydd. **Bwriedir hwn yn amlwg fel cam dros dro yn unig** a gallaf eich sicrhau y byddwn yn ei adolygu yn gyson yng nghyd-destun datblygiad y don bresennol o *Covid*. Wrth gwrs, bydd gan ddysgwyr pob hawl i ddod â byrbryd i mewn i'r ysgol i fwyta amser egwyl.

Wrth gloi, hoffwn ddiolch i chi yn ddiffuant am y gefnogaeth a'r cydweithrediad rydych eisoes wedi dangos fel rhieni a gofalwyr i'r ysgol yn ystod cyfnod digynsail yn hanes byd addysg. Rydym mor ffodus ohonoch. Hoffwn eich sicrhau, er bod Pennaeth newydd yn eich cyfarch, mai diogelwch ac hunan les eich plant sydd yn parhau yn flaenllaw i mi ac i'r ysgol, ochr -yn-ochr â sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau academaidd uchaf.

Blwyddyn Newydd Dda i chi, a chadwch yn ddiogel.

Yn gywir,
Jeffrey Connick
(Pennaeth Gweithredol)

Pennaeth Gweithredol: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

6th January, 2022

Dear Parent/Carer,

It is a pleasure to greet you for the first time as Acting Head of the school. Firstly, I must pay tribute to my predecessor, Dafydd Jenkins, who lead the school so successfully since January 2017. Under his leadership, the school continued to achieve the highest standards academically and secured its place once again amongst the best secondary schools in Wales. In addition, there was significant developments to the school site with the opening of new sports fields, a canteen and a new home for the Welsh Department. Our debt as an educational community is great to him. However, I am also pleased to say that he is not severing his ties completely with the school as he will continue to teach Mathematics to Yrs.7-11 until the end of the school year.

At the beginning of term, I am pleased to welcome new members of staff. Bethan Harkin joins the school as Leader of the Expressive Arts Area of Learning and Experience. Mrs. Harkin is a former pupil and has worked for years as a very successful middle leader in a secondary school in Pembrokeshire. She will be a great asset to the school and we wish her every success in her work. In addition, another former pupil, Nia Poulton, joins the Science Department as a Technician. We also wish her all the best in her role.

LEARNING AND TEACHING ARRANGEMENTS

As you are already aware I am sure from the media, the situation facing education in January is challenging, mainly as a result to the impact of the *Covid* variant, *Omicron*. This means the possibility of high numbers of staff and learners self-isolating, which would have a significant impact on schools' ability to operate in the usual way. At present, I am pleased to say that the situation in the school is fairly stable and therefore **we can confirm that ONLY Yr. 11 pupils and Yrs. 12-13 students will be able to return to education on the school site on Friday, 7 January followed by ALL Yrs. 7-13 learners on Monday 10 January.** However, I must emphasise that the situation could change rapidly but I wish to assure you that I will inform you as quickly as possible if that happens, giving you as much notice as possible.

Pennaeth Gweithredol: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

SAFEGUARDING LEARNERS AND THE SCHOOL SITE

What is important in the current context is that staff and learners at the school do their utmost to protect themselves. Therefore:

- **No-one should come on the school site if they are suffering from the main symptoms of *Covid* (persistent new cough, high temperature, loss of taste or smell) They should self-isolate and then arrange a *PCR* test.**

- **However, if they feel healthy, all learners, as staff do, should test themselves before coming to school, three times a week on a Monday, Wednesday and Friday by means of a Lateral Flow Test (*LFT*). Test packs are available in school for learners and will be distributed weekly to those wishing to receive them. After testing, if the result is positive, the learner should self-isolate.**

- **It is essential that learners wear masks on school buses, and also during lessons and inside the school buildings, respecting the one-way systems.**

- **Staff will instruct learners to disinfect hands and tables at the end of lessons, and there is a daily system in place of cleaning special touch points such as door handles.**

- **Learners, as staff, should do their utmost to maintain an appropriate physical distance from each other**

- **In addition, the school has taken further steps this term to reduce learners' contact with each other to decrease the risk of *Covid* transmission. This has been accomplished by designating specific play areas for Year Groups during break and lunch times, and also appointing specific times for Year Groups to gather to eat their lunch. In addition, learners will be carefully released at the end of the day, in their Year Groups, to reach the buses.**

Pennaeth Gweithredol: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

NO SNACK PROVISION AT BREAKTIME

Unfortunately, as part of our strategy to reduce contact between Year Groups, the school canteen will be unable to provide a break time snack for learners **for the time being.** This is mainly because the time constraints of morning break make it impossible to ensure a system where Year Groups can be separated from each other. I must stress that this is intended as a **temporary measure** and assure you that the school will keep it under constant review in the context of the development of the current *Covid* wave. Of course, learners will have every right to bring a snack into school to eat at break time.

In closing, I would like to thank you sincerely for the support and co-operation you have already shown as parents and carers for the school during an unprecedented period in the history of education. We are so fortunate in our parents and carers. I would like to assure you that, although I am greeting you as a new Headteacher, the safety and welfare of your children remains my, and the school's, prime consideration, alongside ensuring that they meet the highest academic standards.

A Happy New Year to you, and keep safe.

Yours sincerely,
Jeffrey Connick
(Acting Headteacher)

Pennaeth Gweithredol: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg